**Jane Hutt AC / AM**
**Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth**
**Minister for Finance and Government Business**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-L/JH/0235/15

Jocelyn Davies AC
Cadeirydd, y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

7 Rhagfyr 2015

Annwyl Jocelyn,

Yn dilyn yr argymhelliad yn adroddiad y Pwyllgor Cyllid 'Casglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru' y dylid adrodd bob chwe mis ynghylch Awdurdod Cyllid Cymru, rwyf yn falch o gael amgáu copi o adroddiad cyntaf Gweinidogion Cymru ar gyflwyno a gweithredu Rhan 2 Deddf Cymru 2014.

Mae'r adroddiad, rwyf wedi ei roi gerbron y Cynulliad heddiw, yn crynhoi'r gwaith a gwblhawyd hyd yn hyn ac yn bwrw golwg ar rai o'r cerrig milltir sydd o'n blaenau wrth inni wneud cynnydd o ran yr agenda bwysig hon.

Hefyd mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru i fod i gyflwyno adroddiad am weithredu Deddf Cymru, a disgwyliaf y byddaf yn rhoi copi o'r adroddiad hwn gerbron y Cynulliad yn yr wythnos nesaf.

Yn gywir,

Jane

**Jane Hutt AC / AM**
Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth
Minister for Finance and Government Business

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.Jane.Hutt@wales.gsi.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

# Adroddiad Blynyddol Cyntaf Gweinidogion Cymru ar Gyflwyno a Gweithredu Rhan 2 (Cyllid) Deddf Cymru 2014

Adroddiad blynyddol cyntaf Gweinidogion Cymru ar gyflwyno a gweithredu Rhan 2 (Cyllid) Deddf Cymru 2014, a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac a gyflwynwyd i Ysgrifennydd Gwladol Cymru i'w osod gerbron dau Dŷ'r Senedd, yn unol â Rhan 23 o Ddeddf Cymru 2014.

Rhagfyr 2015

OGL © Hawlfraint y Goron 2015
WG27392 ISBN digidol 978 1 4734 5402 6

# Adroddiad Blynyddol cyntaf Llywodraeth Cymru ar gyflwyno a gweithredu Rhan 2 (Cyllid) Deddf Cymru 2014

**Cynnwys**


| | tudalen |
|---|---|
| **Rhagair** | 2 |
| **Diben yr adroddiad hwn** | 4 |
| **Trethi datganoledig** | 5 |
| Cynllunio trethi Cymreig i gymryd lle rhai’r DU | 5 |
| Sefydlu trefniadau ar gyfer casglu a rheoli’r trethi datganoledig | 7 |
| Cost casglu a rheoli trethi datganoledig | 8 |
| Cytuno ar faint yr addasiad i’r grant bloc | 9 |
| Creu trethi datganoledig ychwanegol | 9 |
| Cyd-bwyllgor y Trysorlysoedd | 9 |
| **Benthyca** | 10 |
| Benthyca cyfalaf | 10 |
| Benthyca refeniw | 11 |
| **Treth incwm** | 12 |
| Cysylltiad ag ariannu teg i Gymru | 12 |
| **Gweithdrefnau cyllidebol** | 14 |
| Darogan refeniw | 14 |
| **Atodiad 1: Y Grŵp Cynghori ar Drethi a’r Fforwm Trethi** | 15 |
| **Atodiad 2: Acronymau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn** | 17 |
| **Atodiad 3: Gwybodaeth bellach** | 18 |

**Rhagair**

Eleni gwelwyd cynnydd sylweddol tuag at roi pwerau trethu a benthyca newydd Cymru ar waith - pwerau sydd wedi'u darparu gan Ran 2 Deddf Cymru 2014. Ymgysylltwyd ac ymgynghorwyd yn sylweddol â busnesau a chyrff eraill, cynrychiolwyr y Trydydd Sector, arbenigwyr a gweithwyr proffesiynol ym maes treth, yn ogystal â chyda Phwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol, ac rydym wedi pasio carreg filltir bwysig drwy gyflwyno bil treth cyntaf Cymru - Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru).

Mae Deddf Cymru 2014 (y "Ddeddf")[1], a gafodd Gydsyniad Brenhinol ym mis Rhagfyr 2014, yn amlinellu ystod o bwerau trethu a benthyca newydd i Gymru, gan gynnwys datganoli Treth Dir y Dreth Stamp a'r Dreth Dirlenwi yn llawn, benthyca i gefnogi buddsoddi cyfalaf ac i reoli amrywiadau cyllidebol yn sgil datganoli treth, pwerau i greu trethi datganoledig newydd fesul achos (yn amodol ar gytundeb y Cynulliad Cenedlaethol, Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi), datganoli treth incwm yn rhannol (os bydd pobl Cymru'n cefnogi hynny mewn refferendwm[2]), a'r gallu i ddeddfu ar gyfer gweithdrefnau cyllidebol y Cynulliad. Y dyddiad targed ar gyfer rhoi mwyafrif y pwerau newydd ar waith yw Ebrill 2018.

Dan adran 23 y Ddeddf, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru adrodd yn flynyddol ar y cynnydd a wnaed o ran gwireddu'r darpariaethau dan Ran 2, hyd at flwyddyn wedi i'r darpariaethau terfynol gael eu rhoi ar waith.[3]

Bydd y darpariaethau yn y Ddeddf yn esgor ar newid pwysig i'r modd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu hariannu yng Nghymru. Gwelaf dri phrif fudd:

- y gallu i greu gwell trethi, wedi'u datblygu i fodloni anghenion Cymru ac yn hyblyg wrth i'n hamgylchiadau a'n blaenoriaethau newid;
- mwy o hyblygrwydd a gwell rheolaeth dros y gyllideb ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus Cymru, gan ein galluogi i fuddsoddi yn ein seilwaith critigol, ac ar yr un pryd wella atebolrwydd a rhoi mwy o eglurder ynghylch sut mae ein gwariant yn cael ei ariannu;
- y gallu i gadw'r trethi a delir yng Nghymru wrth i'n heconomi adfer - mynd i'r afael ag osgoi talu, gan sicrhau bod y rhai y mae trethi'n ddyledus ganddynt yn eu talu.

A hithau bron yn flwyddyn ers cyflwyno Deddf Cymru 2014, mae Llywodraeth Cymru ar y trywydd iawn i roi'r darpariaethau newydd ar waith. Mae rhaglen waith sylweddol yn mynd rhagddi, yn seiliedig ar y pedair egwyddor allweddol a fydd yn sail i ddull Llywodraeth Cymru o ymwneud â pholisi treth - bydd ein dull o weithredu:

- yn deg i fusnesau neu unigolion sy'n talu trethi;
- yn syml, gyda rheolau clir sy'n ceisio lleihau cymaint â phosibl ar y costau cydymffurfio a gweinyddu;
- yn cefnogi twf a swyddi, a fydd yn ei dro yn helpu i fynd i'r afael â thlodi; ac

---

[1] Mae Deddf Cymru 2014 yn diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ac mae ar gael ar y wefan gov.uk: http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2014/29/contents/enacted

[2] Yn Adolygiad o Wariant 2015 cyhoeddodd y Canghellor y byddai Llywodraeth y DU yn deddfu i gael gwared ar yr angen am refferendwm, ond ni wnaeth egluro pa broses a ddefnyddir yn lle hynny.

[3] Cafodd Deddf Cymru 2014 Gydsyniad Brenhinol ar 17 Rhagfyr 2014. Nid yw'n ofynnol cynnwys tair o'r adrannau yn Rhan 2 yn yr adroddiadau blynyddol: adran 10 'Welsh taxpayers for social security or child support purposes', adran 11 'Amendments to the definition of a Scottish taxpayer', ac adran 22 'Budgetary procedures'; fodd bynnag mae Gweinidogion Cymru wedi penderfynu cynnwys cynnydd tuag at gyflawni adran 22 yn yr adroddiad hwn.

- yn rhoi sefydlogrwydd a sicrwydd i drethdalwyr, gyda newidiadau'n amodol ar ymgynghori trylwyr â budd-ddeiliaid.

Rwy'n rhoi pwyslais penodol ar ymwneud agos â budd-ddeiliaid - er enghraifft drwy ymgynghoriadau cyhoeddus ar gasglu a rheoli trethi, y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi, drwy fy Ngrŵp Cynghori ar Drethi, Fforwm Trethi a Grwpiau Arbenigwyr Technegol, drwy ddigwyddiadau sydd wedi'u trefnu ar gyfer grwpiau penodol o fudd-ddeiliaid, a thrwy weithio gyda Phwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol. Rwy'n ymrwymedig hefyd i roi diweddariadau rheolaidd ar gynnydd i'r Cynulliad ac, wrth i'r rhaglen ddatblygu, diweddariadau fwyfwy i'r cyhoedd yn ehangach, gan anelu at ddarparu ar gyfer gwahanol lefelau o ddiddordeb ac arbenigedd.

Mae'r pwerau cyllidol newydd yn rhoi'r cyfle i ni ail-lunio trethi yng Nghymru fel eu bod yn cyfateb yn well i'n hanghenion a'n hamgylchiadau. Fodd bynnag, ni ddylem geisio cyflwyno newid er mwyn newid. Rwy'n ymwybodol iawn o ba mor integredig yw economïau Cymru a Lloegr - ac o faint o bobl sy'n teithio ar draws y ffin rhwng ein gwledydd yn ddyddiol - gymaint mwy felly na rhwng yr Alban a Lloegr. Ni fydd cyfundrefn dreth Cymru yn gweithredu mewn gwagle; dylem roi sylw arbennig i faterion trawsffiniol posibl a allai effeithio ar ein busnesau, ein gweithwyr a'r gymuned yn ehangach.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gosodwyd sylfaen gref ar gyfer y gwaith sydd i ddod. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r datblygiadau allweddol wrth i ni symud ymlaen tuag at roi pwerau trethu a benthyca newydd Cymru ar waith.

Jane Hutt AC
Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth

**Diben yr adroddiad hwn**

Mae Deddf Cymru 2014[4], i raddau helaeth, yn cynnwys darpariaethau yn ymwneud â chyllid (megis datganoli trethi a phwerau benthyca) a materion cyfansoddiadol (er enghraifft etholiadau'r Cynulliad ac aelodaeth o'r Cynulliad).

Yn unol ag adran 23 y Ddeddf, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru baratoi adroddiadau cynnydd blynyddol ar wahân ar y darpariaethau ariannol sydd wedi'u cynnwys yn Rhan 2 y Ddeddf. Mae gofyn cyhoeddi'r adroddiadau bob blwyddyn cyn y dyddiad pan gafodd y Ddeddf Gydsyniad Brenhinol (17 Rhagfyr 2014), gyda'r adroddiad terfynol i'w gyflwyno flwyddyn i'r diwrnod pan roddir y ddarpariaeth derfynol ar waith, neu cyn gynted ag sy'n ymarferol wedi hynny. Yn benodol, mae'r Ddeddf yn nodi y dylai'r adroddiadau gynnwys y wybodaeth ganlynol:

(a) crynodeb o'r camau a gymerwyd tuag at roi Rhan 2 ar waith;

(b) crynodeb o'r camau y dylid eu cymryd tuag at roi'r darpariaethau ar waith;

(c) asesiad o weithrediad y rhai hynny o ddarpariaethau Rhan 2 sydd wedi'u rhoi ar waith;

(d) asesiad o weithrediad y pwerau eraill i ddatganoli trethi i'r Cynulliad neu i newid pwerau Gweinidogion Cymru i fenthyca arian, a gweithrediad unrhyw newidiadau eraill sy'n effeithio ar y darpariaethau a fewnosodwyd neu a ddiwygiwyd gan y Rhan hon;

(e) datganiad o effaith y Rhan hon ar swm unrhyw daliadau a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol dan adran 118 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (taliadau i Gronfa Gyfunol Cymru); ac

(f) unrhyw faterion eraill sy'n ymwneud â'r ffynonellau refeniw ar gyfer Llywodraeth Cymru y mae awdur yr adroddiad yn ystyried y dylid tynnu sylw'r Senedd neu'r Cynulliad tuag atynt.

Ar y cam cynnar hwn o safbwynt rhoi'r darpariaethau ar waith, mae'r adroddiad cyntaf yn canolbwyntio ar (a) a (b).

Yn unol ag Adran 23 Deddf Cymru 2014, bydd copïau o'r adroddiad hwn yn cael eu rhoi gerbron y Cynulliad Cenedlaethol a'u hanfon at Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

---

[4] Mae Deddf Cymru 2014 ar gael ar wefan gov.uk: http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2014/29/contents/enacted

**Trethi datganoledig**

1. Mae'r adran hon yn disgrifio'r cynnydd a wnaed o ran rhoi'r pwerau ar waith i ddatganoli Treth Dir y Dreth Stamp a'r Dreth Dirlenwi yn llawn i Gymru, a'r gwaith pellach y bwriedir ei wneud. Mae'n cyfeirio at y camau a gymerwyd tuag at sefydlu trefniadau ar gyfer casglu a rheoli'r trethi datganoledig, gan gynnwys rôl bosibl Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn y dyfodol, yr effeithiau ar grant bloc Cymru a'r cyfle ar gyfer trethi datganoledig newydd yn y dyfodol.

2. Roedd y Papur Gorchymyn a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU ar y cyd â Bil Cymru, ym mis Mawrth 2014, yn cadarnhau y byddai trethi'r DU sy'n cael eu datganoli i Gymru yn cael eu 'diffodd' o Ebrill 2018.[5] Ar y pwynt hwnnw, byddai'r trethi Cymreig newydd sy'n cymryd eu lle yn cael eu cyflwyno, a'r refeniw'n trosglwyddo i Lywodraeth Cymru (yn hytrach na Llywodraeth y DU, fel y mae ar hyn o bryd), a gostyngiad cyfatebol yn cael ei wneud i grant bloc Cymru.

3. Gellir crynhoi'r prif feysydd gweithgarwch yn arwain at y cam hwnnw fel a ganlyn:
   - cynllunio trethi Cymreig i gymryd lle rhai'r DU;
   - sefydlu trefniadau ar gyfer casglu a rheoli'r trethi datganoledig; a
   - chytuno ar faint yr addasiad i'r grant bloc.

<u>Cynllunio trethi Cymreig i gymryd lle rhai'r DU</u>

4. Ym mis Tachwedd 2014, cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth bedair egwyddor allweddol a fyddai'n sail i ddull Llywodraeth Cymru o ymwneud â pholisi treth. Byddai'r dull:
   - yn deg i fusnesau neu unigolion sy'n talu trethi;
   - yn syml gyda rheolau clir fydd yn ceisio lleihau cymaint â phosibl ar y costau cydymffurfio a gweinyddu;
   - yn cefnogi twf a swyddi, a fydd yn ei dro yn helpu i fynd i'r afael â thlodi; ac
   - yn rhoi sefydlogrwydd a sicrwydd i drethdalwyr, gydag unrhyw newidiadau yn amodol ar ymgynghori trylwyr gyda budd-ddeiliaid.

5. Bydd polisi a strategaeth trethi datganoledig yn cael eu pennu gan Weinidogion Cymru, ond i helpu i lywio'r broses hon mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Grŵp Cynghori ar Drethi Gweinidogol, Fforwm Trethi a Grwpiau Arbenigwyr Technegol, gan fanteisio ar ystod eang o arbenigedd. Ceir rhagor o fanylion am y Grŵp Cynghori ar Drethi a'r Fforwm Trethi yn Atodiad 1.

6. Yn gynnar yn 2015, cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth y byddai Llywodraeth Cymru yn cyflwyno'r Dreth Trafodiadau Tir i gymryd lle Treth Dir y Dreth Stamp, a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi i gymryd lle'r Dreth Dirlenwi.[6]

7. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar Dreth Trafodiadau Tir ym mis Chwefror 2015 a pharhaodd tan fis Mai 2015. Cafodd Llywodraeth Cymru 38 o ymatebion i'r

---

[5] 'Wales Bill: financial Empowerment and accountability' Cm 8838, para 16. Ar gael ar: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/294471/Wales_Bill_Command_Paper_-_Welsh.pdf

[6] Datganiadau Ysgrifenedig gan Weinidogion a gyhoeddwyd ar 15 Ionawr 2015 a 4 Chwefror 2015: http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2015/landtax/?lang=cy
http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2015/landfilldisposaltax/?lang=cy

ymgynghoriad gan ystod o fudd-ddeiliaid, gan gynnwys busnesau, gweithwyr proffesiynol ym maes trethi a'r gyfraith, a budd-ddeiliaid ehangach. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymatebion yr ymgynghoriad a dadansoddiad ohonynt ar 15 Medi, ynghyd â Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth oedd yn nodi mai'r neges allweddol ar gyfer budd-ddeiliaid oedd pwysigrwydd cysondeb gyda Threth Dir y Dreth Stamp.

8. Bu i fwyafrif y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad dynnu sylw at effaith gadarnhaol system cyfradd ymylol Treth Dir y Dreth Stamp, a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU ar gyfer eiddo preswyl ym mis Rhagfyr 2014, yn dilyn y penderfyniad gan Lywodraeth yr Alban i ddefnyddio system cyfradd ymylol ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir ac Adeiladau. Roedd hyn yn cefnogi'r penderfyniad yr oedd Gweinidogion Cymru eisoes wedi'i wneud i drethu eiddo preswyl ar sail ymylol dan y Dreth Trafodiadau Tir.

9. Cadarnhaodd y Gweinidog hefyd y byddai dull presennol Treth Dir y Dreth Stamp o ymwneud â phartneriaethau, ymddiriedolaethau a chwmnïau, a rhyddhad ac eithriadau, yn cael ei gadw yn gyffredinol. Bu i'r ymatebion i'r ymgynghoriad dynnu sylw at y ffaith fod cymuned fusnes Cymru yn deall hyn yn dda, a byddai'n rhoi'r cysondeb y mae ar fusnesau ei eisiau. At hynny, bydd hefyd yn cynorthwyo pontio llyfn ar gyfer y farchnad eiddo, gan alluogi unigolion a busnesau i gynllunio'n hyderus ar gyfer y dyfodol.

10. Cadarnhawyd hefyd y byddai Llywodraeth Cymru, wedi iddi ymgynghori ar werth tebygol rheol osgoi treth gyffredinol ar gyfer y trethi datganoledig newydd, yn datblygu rheol osgoi trethi Gymreig mewn perthynas â'r ddwy dreth ddatganoledig. Byddai hyn yn rhoi neges glir ac arf i atal ac ymdrin ag unrhyw osgoi trethi. Lle y Llywodraeth nesaf fydd ystyried hyn wrth iddynt gyflwyno'r ddeddfwriaeth ar gyfer y trethi penodol wedi'r etholiad nesaf.

11. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar Dreth Gwarediadau Tirlenwi rhwng Chwefror a Mai 2015. Cafwyd bron i 300 o ymatebion, o'r diwydiant gwastraff (gan gynnwys Gweithredwyr Safleoedd Tirlenwi), cyrff amgylcheddol a'r trydydd sector yn ogystal ag arbenigwyr treth. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru yr ymatebion i'r ymgynghoriad a dadansoddiad ohonynt ar 15 Medi, ynghyd â Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth.

12. Bu i ymatebion i'r ymgynghoriad dynnu sylw at effaith bosibl gwahaniaethau materol rhwng y cyfraddau treth a godir yng Nghymru ac yn Lloegr ar 'dwristiaeth gwastraff'. Roedd nifer o feysydd eraill lle byddai cysondeb o ran ymdrin â threth dirlenwi yn bwysig i Weithredwyr Safleoedd Tirlenwi a'r diwydiant gwastraff yn ehangach.

13. Y maes allweddol y mae Llywodraeth Cymru eisiau gwella ar y Dreth Dirlenwi bresennol ynddo yw'r bwriad i addasu'r cydbwysedd risg fel bod canlyniadau peidio â chydymffurfio yn drech na'r elw sydd i'w wneud o weithgarwch gwastraff anghyfreithlon. Roedd cefnogaeth gref ymhlith y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad o blaid ymestyn y diffiniad o safle tirlenwi i gynnwys gollwng gwastraff yn anghyfreithlon o fewn cwmpas y dreth.

14. Roedd dros hanner yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn ymwneud â lles y gymuned, a chyhoeddodd y Gweinidog ei bwriad i ddyrannu cyfran o refeniw y Dreth Gwarediadau Tirlenwi i fentrau lles cymunedol a chanddynt ffocws amgylcheddol ac a fydd yn cynnwys prosiectau bioamrywiaeth a phrosiectau lleihau gwastraff. Gellid

cyflawni hyn drwy gyfrwng Cynllun Cymunedol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Mae Llywodraeth Cymru yn archwilio datblygiad cynllun o'r fath, gan sicrhau ei fod yn cyd-fynd â nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac ystyried opsiynau ar gyfer symleiddio gweinyddu, a cheisio sicrhau bod cymaint o nawdd â phosibl yn cyrraedd cymunedau.

15. Disgwylir y bydd y ddeddfwriaeth i gyflwyno'r trethi newydd yn cael ei chyflwyno gan Lywodraeth newydd Cymru wedi etholiadau'r Cynulliad ym mis Mai 2016. Gwneir penderfyniadau ar gyfraddau a bandiau treth yn agosach at fis Ebrill 2018, pan ellir ystyried y sefyllfa economaidd ar y pryd.

Sefydlu trefniadau ar gyfer casglu a rheoli'r trethi datganoledig

16. Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar gasglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru o fis Medi tan fis Rhagfyr 2014, er mwyn cael safbwyntiau ar ei chynigion i weinyddu trethi datganoledig. Ym mis Chwefror 2015 cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth grynodeb o ymatebion i'r Papur Gwyn, ac ar 13 Gorffennaf 2015 cyflwynodd y Gweinidog Fil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) i'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer sefydlu adran anweinidogol newydd, Awdurdod Cyllid Cymru, a fydd yn gyfrifol yn ôl y gyfraith am gasglu a rheoli'r trethi datganoledig newydd. Bydd hwn yn gweithredu ar wahân i Weinidogion Cymru er mwyn sicrhau bod gwybodaeth trethdalwyr yn cael ei rheoli'n gyfrinachol ac yn briodol. Bydd Gweinidogion Cymru yn cadw trosolwg strategol ar y corff i sicrhau ei fod yn casglu trethi datganoledig Cymru yn unol â blaenoriaethau strategol y Gweinidogion. Mae'r Bil hefyd yn caniatáu i ACC ddirprwyo unrhyw rai o'i swyddogaethau i unrhyw gorff trwy gyfrwng rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.

17. Mae'r Bil yn darparu hefyd ar gyfer strwythur corfforaethol ACC, a'i gysylltiadau â'r Cynulliad Cenedlaethol, Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae'n ei gwneud hi'n ofynnol i ACC gynhyrchu Siarter o safonau a gwerthoedd ar gyfer y trethdalwr a'r awdurdod treth, ac ymgynghori arni.

18. Mae'r Bil yn rhoi pwerau a dyletswyddau i'r awdurdod i'w alluogi i gasglu a rheoli trethi datganoledig sy'n gyson ag awdurdodau treth eraill y DU (Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi a Revenue Scotland). Mae'r rhain yn cynnwys:
- cyflwyno ffurflenni treth a'r ddyletswydd ar drethdalwyr i gadw cofnodion;
- cynnal ymholiadau ac asesiadau i bennu faint o dreth ddatganoledig sy'n ddyledus;
- codi cosbau a, dan rai amgylchiadau, talu llog;
- yr hawl i adolygu ac apelio;
- pwerau ymchwilio a gorfodi sifil, gan ganiatáu i ACC fynnu cael gwybodaeth a mynd i mewn i eiddo a'u harchwilio.

19. Dechreuodd y craffu ar y Bil ar 17 Medi 2015 ac mae'n cael ei gynnal gan Bwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol[7]. Mae Llywodraeth Cymru'n gobeithio sicrhau Cydsyniad Brenhinol i'r Bil erbyn mis Ebrill 2016.

[7] Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol ar: http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=12989

20. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i sicrhau bod trethdalwyr datganoledig, busnesau a gweithwyr proffesiynol, a chymunedau Cymru, yn ymwybodol ein bod yn symud at y trethi newydd hyn, ac yn chwarae rhan lawn yn eu datblygiad. Bydd y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth yn cyhoeddi papur Trysorlys ar drethi Cymreig yn gynnar yn 2016, er mwyn dechrau'r broses o ymgysylltu'n ehangach ar ddatganoli trethi, diwylliant trethdalwyr ac i gefnogi Awdurdod Cyllid newydd Cymru i ddatblygu Siarter Trethdalwyr i'w chyhoeddi cyn Ebrill 2018.

<u>Cost casglu a rheoli trethi datganoledig</u>

21. Mae Llywodraeth y DU wedi cadarnhau nad yw'n fodlon trosglwyddo i Gymru y cyllid fyddai'n angenrheidiol i dalu am weinyddu cyfrifoldebau cyllidol newydd Cymru. Llywodraeth Cymru, felly, fydd yn gorfod ysgwyddo cost ychwanegol sefydlu a gweithredu'r trefniadau casglu a rheoli ar gyfer trethi datganoledig.

22. Yn dilyn ymgynghoriad, gan gynnwys ystyried ymchwiliad gan Bwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Mai 2015, cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth y dull yr oedd hi'n ei *ffafrio* ar gyfer casglu a rheoli'r trethi datganoledig ar 30 Mehefin 2015.
    - Ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir: byddai ACC yn gweithio gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM) - CThEM yn gwneud y gwaith trafodol a'r gwaith cydymffurfio arferol, ac ACC y gwaith cydymffurfio cymhleth, y gwaith osgoi a'r gwaith gorfodi.
    - Ar gyfer y Dreth Gwarediadau Tirlenwi: byddai ACC yn gweithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC) - CNC yn cyflawni'r swyddogaethau cydymffurfio a gorfodi, ac ACC y gweithgarwch casglu a rheoli.

23. Gwneir penderfyniad terfynol ar y trefniadau hyn ar gyfer 2018 wedi etholiadau Mai 2016, ac awgrymodd y Gweinidog y dylai'r holl drefniadau gael eu hadolygu wedi iddynt fod yn weithredol am dair i bum mlynedd (2021-23).

24. Argymhellodd y Pwyllgor Cyllid yn eu hymchwiliad y dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariadau bob chwe mis ar gynnydd o ran cyflwyno Awdurdod Cyllid Cymru. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r diweddariad cyntaf o blith y rheini.

25. Ar 4 Tachwedd 2015, ysgrifennodd y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth at Bwyllgor Cyllid y Cynulliad gydag amcan cychwynnol o gostau'r trefniadau casglu a rheoli ar gyfer y trethi datganoledig. Roedd y rhain yn cynnwys costau sefydlu o £4.8 miliwn i £6.3 miliwn dros y cyfnod 2016/17 hyd at 2018/19, a chostau gweithredu o £2.8 miliwn i £4 miliwn y flwyddyn, gan ddechrau yn 2018-19. Cadarnhaodd y Gweinidog y byddai'r amcangyfrifon cost yn cael eu mireinio mewn trafodaethau gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi a Chyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas â safonau gwasanaeth, materion TGCh a phenderfyniadau polisi y cytunir arnynt wrth i'r biliau ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi fynd drwy'r Cynulliad. Cadarnhaodd y Gweinidog ei bod yn disgwyl y byddai Llywodraeth nesaf Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Cyllid yn rheolaidd, yn enwedig yng nghyd-destun yr adroddiadau chwe misol ar gyflwyno.

Cytuno ar faint yr addasiad i'r grant bloc

26. Erbyn 2018, mae'r incwm o'r ddwy o drethi'r DU y bydd trethi Cymreig newydd yn cymryd eu lle yn debygol o fod tua £300 miliwn. Felly bydd angen cytuno ar ostyngiad cyfatebol i grant bloc Cymru - i'w 'wrthbwyso' - ymlaen llaw.

27. Cafodd yr egwyddorion a fyddai'n sail i'r trafodaethau sydd i ddod rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar gyfrifo'r gostyngiad eu hystyried yng nghyfarfod cyntaf Cyd-bwyllgor y Trysorlysoedd (gweler isod), 20 Hydref 2014. Bydd trafodaethau manylach ar hyn yn cael eu cynnal yn y flwyddyn sydd i ddod.

Creu trethi datganoledig ychwanegol

28. Mae'r Ddeddf[8] yn darparu ar gyfer creu trethi datganoledig newydd drwy gyfrwng Ei Mawrhydi'n cyflwyno Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor. Ni ellir gwneud argymhelliad i'w Mawrhydi gyflwyno Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor nes bod drafft o'r offeryn statudol sy'n cynnwys y Gorchymyn wedi'i osod gerbron Tŷ'r Cyffredin, Tŷ'r Arglwyddi a'r Cynulliad Cenedlaethol, ac wedi'i gymeradwyo drwy gynnig ym mhob un ohonynt.

29. Mae Papur Gorchymyn Bil Cymru a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU yn 2014[9] yn amlinellu'r meini prawf y byddai Llywodraeth y DU yn eu defnyddio i asesu unrhyw gynnig am dreth newydd. Ar hyn o bryd nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau i ddatblygu cynigion am dreth ddatganoledig newydd.

Cyd-bwyllgor y Trysorlysoedd

30. Fel y disgrifiwyd ym Mhapur Gorchymyn Bil Cymru, mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi sefydlu Cyd-bwyllgor y Trysorlysoedd er mwyn rhoi trosolwg Gweinidogol ar y gwaith o ddatganoli pwerau cyllidol. Mae aelodaeth y Cyd-bwyllgor yn cynnwys Gweinidog Cyllid Cymru, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Prif Ysgrifennydd y Trysorlys ac Ysgrifennydd Ariannol y Trysorlys. Cyfarfu'r Cyd-bwyllgor am y tro cyntaf, a'r unig dro hyd yma, ar 20 Hydref 2014.

---

[8] Bu i Ddeddf Cymru 2014 ddiwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 drwy fewnosod adran 116C - 'Power to add new devolved taxes'.

[9] 'Wales Bill: financial Empowerment and accountability' Cm 8838, tudalen 22. Ar gael ar: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/294471/Wales_Bill_Command_Paper_-_Welsh.pdf

**Benthyca**

31. Mae’r adran hon yn disgrifio’r cynnydd a wnaed i roi pwerau benthyca newydd Cymru ar waith (adrannau 20-21 Deddf Cymru 2014).

32. Bydd y pwerau benthyca newydd yn cael eu rhoi ar waith drwy gyfrwng Gorchymyn Cychwyn a wneir gan y Trysorlys ar y cyd â datganoli Treth Dir y Dreth Stamp a’r Dreth Dirlenwi, sydd wedi’i gynllunio ar gyfer Ebrill 2018. Fodd bynnag, yn y Papur Gorchymyn oedd yn cyd-fynd â chyhoeddi Bil Cymru, mae Llywodraeth y DU wedi cytuno y gall Llywodraeth Cymru ddefnyddio ei phwerau benthyca presennol, mwy cyfyngedig, i symud ymlaen â gwelliannau i’r M4 (os yw’n dewis gwneud hynny).

Benthyca Cyfalaf

33. Bydd adran 20 y Ddeddf yn galluogi Gweinidogion Cymru i fenthyca, yn amodol ar gymeradwyaeth Trysorlys EM, hyd at gyfanswm o £500 miliwn i gwrdd â gwariant cyfalaf. O fewn y terfyn hwnnw, mae Papur Gorchymyn Bil Cymru 2014 yn caniatáu i Lywodraeth Cymru fenthyca hyd at £125 miliwn y flwyddyn. Mae Papur Gorchymyn Bil Cymru 2014[10] yn cyfyngu ffynonellau’r benthyca i’r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol (trwy gyfrwng Llywodraeth y DU) neu fanciau masnachol, gan nodi ar yr un pryd fod Llywodraeth y DU yn barod i ystyried y ddadl o blaid Cymru’n cyhoeddi bondiau.

34. Mae adran 20 (5) y Ddeddf yn gwneud darpariaeth i Ysgrifennydd Gwladol Cymru, trwy orchymyn a chyda chaniatâd Trysorlys EM, amrywio’r modd y gall Gweinidogion Cymru fenthyca arian. Bu i Bapur Gorchymyn ‘Proses Dydd Gŵyl Dewi’ Llywodraeth y DU, a gyhoeddwyd yn Chwefror 2015, gytuno i ychwanegu’r opsiwn o ariannu drwy fondiau.[11] Bydd angen deddfu ar hyn cyn i’r pwerau benthyca cyfalaf ddod ar gael ym mis Ebrill 2018.

35. Mae adran 21 yn darparu ar gyfer diddymu’r pwerau benthyca yn Atodlen 3 Deddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975. Nid oes unrhyw ddefnydd ymarferol i’r pŵer benthyca hwn (a etifeddwyd gan Weinidogion Cymru yn sgil uno Awdurdod Datblygu Cymru â Chynulliad Cenedlaethol Cymru), gan y gallai unrhyw incwm fyddai’n cael ei godi fel hyn basio’n uniongyrchol i Gronfa Gyfunol y DU. Mae Llywodraeth y DU, fodd bynnag, wedi cytuno i ganiatáu i Lywodraeth Cymru fenthyca dan y pŵer hwn at ddibenion ariannu gwelliannau i’r M4 yn ne-ddwyrain Cymru hyd nes y daw’r pwerau benthyca newydd i rym (yn Ebrill 2018).

36. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried opsiynau o ran sut i fynd ati i gyflwyno pwerau benthyca cyfalaf a’r mecanweithiau a’r prosesau fydd yn ofynnol er mwyn i’r pwerau hynny weithredu’n effeithiol. Bydd hyn yn cynnwys y dull o adrodd ar ariannu gwariant cyfalaf a lefelau’r ad-daliadau dyled a’r ymrwymiadau sy’n weddill.

[10] 'Wales Bill: Financial Empowerment and Accountability' a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2014: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/294471/Wales_Bill_Command_Paper_-_Welsh.pdf

[11] Yn dilyn trafodaethau rhynglywodraethol a thrawsbleidiol - ‘Proses Dydd Gŵyl Dewi’ - cytunodd Llywodraeth y DU i ymestyn pwerau benthyca Llywodraeth Cymru i gynnwys cyhoeddi bondiau yn y Papur Gorchymyn 'Powers for a purpose: towards a lasting devolution settlement for Wales' (Cm 9020), 27 Chwefror 2015, pennod 4, tudalen 51: https://www.gov.uk/government/publications/powers-for-a-purpose-towards-a-lasting-devolution-settlement-for-wales.cy

37. Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i adolygu terfyn uchaf benthyca cyfalaf Llywodraeth Cymru ym mhob Adolygiad o Wariant, ar sail yr amgylchiadau economaidd a chyllidol, a lefel y trethiant datganoledig. Disgwylir adolygiad yn awr yn dilyn Adolygiad o Wariant 2015.

Benthyca refeniw

38. Mae adran 20 y Ddeddf yn galluogi Gweinidogion Cymru i fenthyca hyd at £500 miliwn i reoli llif arian - gan gynorthwyo i leddfu amrywiadau mewn derbyniadau treth a mynd i'r afael â cham-gymharu dros dro rhwng trethi a gwariant. O fewn y terfyn, mae Papur Gorchymyn Bil Cymru 2014 yn caniatáu i Lywodraeth Cymru fenthyca hyd at £200 miliwn y flwyddyn.

39. Mae Papur Gorchymyn Bil Cymru 2014 hefyd yn amlinellu gweithrediad Cronfa Arian wrth Gefn newydd, a fydd yn cynorthwyo Llywodraeth Cymru i reoli anwadalrwydd drwy ddarparu mecanwaith ar gyfer cynilo 'refeniw gwarged' - h.y. derbyniadau treth sy'n uwch na'r rhagolygon. Byddai'n rhaid defnyddio unrhyw warged yn y lle cyntaf i ad-dalu unrhyw fenthyca presennol sy'n weddill, ac wedi hynny gellir naill ai dalu unrhyw warged sy'n weddill i gronfa arian wrth gefn neu ei ddefnyddio i ariannu gwariant cyhoeddus ychwanegol ar faterion datganoledig.

40. Yn rhan o'r addasiad a wnaed i alluogi datganoli Ardrethi Annomestig yn llawn i Gymru (Ebrill 2015), ychwanegodd Llywodraeth y DU £98.5 miliwn at Gronfa Arian wrth Gefn newydd Llywodraeth Cymru. Bydd yr arian hwn ar gael i'w ddefnyddio i fynd i'r afael ag anwadalrwydd mewn trethi datganoledig yn y dyfodol.

---

**Treth incwm**

41. Mae adrannau 12-14 Deddf Cymru 2014 yn gwneud darpariaeth i'r Cynulliad bleidleisio ar gynnig ar gyfer refferendwm ar ddatganoli treth incwm yn rhannol i Gymru. Pe byddai'n cael ei basio, yna byddai argymhelliad yn cael ei wneud i'w Mawrhydi i gyflwyno Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor a fyddai'n peri i refferendwm gael ei gynnal yng Nghymru. Pe byddai refferendwm yn cael ei gynnal, a phe byddai mwyafrif y pleidleiswyr yn cytuno y dylid datganoli treth incwm yn rhannol, mae Adrannau 8-11 yn amlinellu sut byddai treth incwm yn cael ei datganoli, yn diffinio talwyr treth incwm Cymru ac yn gwneud darpariaeth i'r Cynulliad osod cyfraddau treth incwm yng Nghymru. Yn Adolygiad o Wariant 2015[12], cyhoeddodd y Canghellor y byddai Llywodraeth y DU yn deddfu i gael gwared ar yr angen am refferendwm, ond ni wnaeth egluro pa broses a ddefnyddir yn lle hynny.

42. Nid yw'r Cynulliad Cenedlaethol wedi galw am refferendwm ar ddatganoli treth incwm, ac nid yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud unrhyw waith i baratoi am refferendwm nac ar gyfer datganoli treth incwm. Felly bydd unrhyw ddatblygiadau tuag at gyflwyno cyfraddau treth incwm Cymreig yn fater i Gynulliad yn y dyfodol.

Cysylltiad ag ariannu teg i Gymru

43. Roedd adroddiad cyntaf Comisiwn Llywodraeth y DU ar Ddatganoli yng Nghymru (neu 'Gomisiwn Silk'), a ddarparodd y sail ar gyfer rhan helaeth o Ran 2 Deddf Cymru 2014, yn cynnwys yr argymhelliad "y bydd y trosglwyddo ar bwerau dros dreth incwm i Lywodraeth Cymru yn amodol ar ddatrys mater ariannu teg mewn ffordd y mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cytuno arni".[13] Dilynodd hyn waith y Comisiwn Annibynnol ar Ariannu a Chyllid i Gymru ('Comisiwn Holtham'), a ganfyddodd, ers cychwyn datganoli, fod fformiwla Barnett, a ddefnyddir i gyfrifo gwariant cyhoeddus datganoledig, wedi gostwng gwariant cymharol y pen yng Nghymru o'i gymharu â'r cyfartaledd yn Lloegr heb gyfiawnhad, a'i fod yn debygol o barhau i wneud hynny pryd bynnag y byddai gwariant ar bolisïau datganoledig yn cynyddu. Gelwir y ffenomen hon, sy'n adlewyrchiad syml ar sut mae'r fformiwla'n gweithredu, yn 'gydgyfeiriant' neu 'Wasgfa Barnett'.[14] Mae Llywodraeth Cymru a'r holl bleidiau yn y Cynulliad Cenedlaethol yn cefnogi argymhelliad Comisiwn Silk i gysylltu datganoli treth incwm â datrys y broblem gyllido.[15]

44. Ar 27 Chwefror 2015, yn sgil trafodaethau â Llywodraeth Cymru a chyda'r holl bleidiau eraill yn y Cynulliad, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddai'n cyhoeddi

---

[12] Adolygiad Gwariant a Datganiad yr Hydref 2015 (tudalen 57):
https://www.gov.uk/government/publications/spending-review-and-autumn-statement-2015-documents
[13] Yr adroddiad cyntaf gan y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru (neu 'Gomisiwn Silk'), 'Grymuso a chyfrifoldeb: pwerau ariannol i gryfhau Cymru' (2012):
http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20140605075122/http://commissionondevolutioninwales.independent.gov.uk/cy/
[14] Cyhoeddodd y Comisiwn Annibynnol ar Ariannu a Chyllid i Gymru ('Comisiwn Holtham') ddau adroddiad (2009 a 2010):
http://gov.wales/funding/financereform/reports/?lang=cy
[15] Dadl ar 'Dyfodol Datganoli i Gymru' - gweler Cofnod y Trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer 21 Hydref 2014:
http://www.assembly.wales/cy/bus-home/pages/rop.aspx?meetingid=2756&language=cy&language=en&assembly=4&c=Record%20of%20Proceedings&startDt=20/10/2014&keyword=NDM5605

terfyn ariannu isaf ar gyfer Cymru, er na roddodd unrhyw fanylion - gan ymrwymo i gytuno i hyn yn yr Adolygiad o Wariant nesaf.[16]

45. Yn Adolygiad o Wariant 2015, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddai'r terfyn ariannu isaf ar gyfer Cymru yn cael ei osod ar 115% o wariant cyfartalog yn Lloegr ar gyfer cyfnod yr Adolygiad o Wariant (h.y. hyd at ddiwedd 2019-20). Yna bydd y terfyn ariannu isaf hwn yn cael ei ailosod yn yr Adolygiad o Wariant nesaf. Nid yw hyn, wrth gwrs, yn mynd i'r afael ag ariannu Cymru yn y tymor hir ac mae'n golygu y bydd risg o gydgyfeiriant unwaith eto pan fydd gwariant yn cynyddu eto.

---

[16] Mae'r ymrwymiad hwn wedi'i nodi ym Mhapur Gorchymyn Llywodraeth y DU 'Powers for a purpose: towards a lasting devolution settlement for Wales' (Pennod 4, tudalen 50): https://www.gov.uk/government/publications/powers-for-a-purpose-towards-a-lasting-devolution-settlement-for-wales.cy

**Gweithdrefnau cyllidebol**

46. Nid oes angen adroddiad ar gynnydd tuag at sefydlu gweithdrefnau cyllidebol newydd ar gyfer y Cynulliad (adran 22) dan Ddeddf Cymru 2014, ond mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol adolygu cynnydd.

47. Er mwyn rhoi darpariaethau ariannol Deddf Cymru 2014 ar waith mae angen newidiadau i weithdrefnau cyllidebol yng Nghymru. Adroddodd y Pwyllgor Cyllid ar ei ymchwiliad i 'Arfer Orau mewn Prosesau Cyllidebol' ym mis Mawrth 2015 a bu ei argymhellion yn ddefnyddiol o ran datblygu'r gweithdrefnau newydd.

48. Cytunwyd y bydd y newidiadau i'r gweithdrefnau cyllidebol ar gyfer Cyllideb 2018-19 yn cael eu rhoi ar waith trwy ddiwygio Rheolau Sefydlog a'r cytundeb Protocol Cyllideb rhwng Llywodraeth Cymru a'r Pwyllgor Cyllid. Ystyrir cyflwyno deddfwriaeth, megis Bil Fframwaith Ariannol yn cynnwys trefniadau cyllidebol a threfniadau atebolrwydd, yng nghyd-destun y setliad datganoli i'r dyfodol.

49. Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda Chomisiwn y Cynulliad i ddatblygu gweithdrefnau cyllidebol diwygiedig. Yn ogystal ag ymgorffori'r newidiadau angenrheidiol sy'n ofynnol o ganlyniad i ddatganoli pwerau trethu a benthyca dan Ddeddf Cymru 2014, bydd hyn hefyd yn ystyried yr amserlen ar gyfer craffu ar y gyllideb a'i chymeradwyo, a'r posibilrwydd o symud i broses gyllidebol ac iddi ddau gam.

50. Mae Llywodraeth Cymru'n parhau i weithio i wella ei dull o ymwneud â chyllidebau ac, yn enwedig, sut mae'n cyflwyno ei chynigion a pha mor dryloyw ydynt. Yn ogystal â'r newidiadau sy'n codi o Ddeddf Cymru 2014, mae rhoi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar waith yn golygu bod angen diwygio'r modd y mae Llywodraeth Cymru yn cynllunio, yn cyllidebu ac yn adrodd ar berfformiad. Dyma gyfle pellach i egluro'r cysondeb rhwng dangosyddion, canlyniadau a phenderfyniadau cyllideb, ac mae'n hanfodol fod yna lwybr clir rhwng nodau a blaenoriaethau'r Llywodraeth a chynlluniau'r cyrff cyhoeddus y mae'n eu hariannu.

51. Ymysg gwelliannau pellach mae cysoni cynnig cyllideb blynyddol a chyfrifon cyfunol Llywodraeth Cymru ag eiddo terfyn cyllideb Trysorlys EM. Mae goblygiadau hyn yn cael eu hystyried ar hyn o bryd a bydd Llywodraeth Cymru yn cysylltu ag Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn y man.

<u>Darogan refeniw</u>

52. Mae Llywodraeth y DU wedi gofyn i'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ddarogan derbyniadau Cymru ar gyfer y ddwy dreth fydd yn cael eu datganoli i Gymru - Treth Dir y Dreth Stamp a'r Dreth Dirlenwi. Cynhyrchodd y Swyddfa ragolygon am y tro cyntaf ym mis Rhagfyr 2014 ac mae wedi ailadrodd yr ymarfer i gyd-fynd â Chyllidebau Mawrth a Gorffennaf 2015 ac Adolygiad o Wariant 2015.

53. Bydd Llywodraeth Cymru yn creu ei rhagolygon ei hun o refeniw treth ar gyfer y trethi a ddaw yn lle rhai'r DU - y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi - o 2018-19 ymlaen.

54. Nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i sefydlu ei Chomisiwn Ariannol ei hun, er y bydd hyn yn parhau i gael ei adolygu wrth i faterion symud yn eu blaen.

**Atodiad 1**

**Y Grŵp Cynghori ar Drethi a'r Fforwm Trethi**

Y Grŵp Cynghori ar Drethi

Mae'r Grŵp Cynghori ar Drethi yn rhoi cyngor strategol i Weinidogion Cymru ar bolisi a gweinyddu trethi ac yn ystyried yr effaith y gall polisïau newydd ei chael ar bobl Cymru. Mae ei aelodaeth yn cynrychioli ystod eang o safbwyntiau ac arbenigedd er mwyn sicrhau bod anghenion pobl Cymru'n cael eu cynrychioli ar y lefel uchaf. Mae'r grŵp yn cael ei gadeirio gan y Gweinidog Cyllid ac yn cwrdd deirgwaith y flwyddyn.

*Cylch gorchwyl*

- Rhoi cyngor a chefnogaeth wrth ddatblygu polisi a gweinyddu trethi yng Nghymru;
- rhoi cyngor ar effaith ehangach polisi treth Cymru ar fudd-ddeiliaid ac economi ac adeiladwaith cymdeithasol Cymru; a
- helpu i wella cyfathrebu ar draws ystod o fudd-ddeiliaid o safbwynt polisi a gweinyddu trethi er mwyn helpu i lywio ymgynghoriadau a deddfwriaeth treth Llywodraeth Cymru yn well.

*Aelodau*

Emma Watkins, CBI Cymru
Ruth Marks, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Janet Jones, Ffederasiwn Busnesau Bach
Robert Lloyd Griffiths, Sefydliad y Cyfarwyddwyr
Dr Victoria Winckler, Sefydliad Bevan
Martin Mansfield, Cyngres yr Undebau Llafur, Cymru
Kay Powell, Cymdeithas y Gyfraith
Y Cynghorydd Aaron Shotton, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Martin Warren, Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr
David Phillips, Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid
Andrew Evans, Geldards LLP
Frank Haskew, Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr

Fforwm Trethi

Mae Fforwm Trethi Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â phroffesiynau a chyrff cynrychioliadol perthnasol ar bolisi a gweinyddu trethi. Mae'n darparu sgwrs ddeuffordd gyda gweithwyr proffesiynol ym maes treth am ddatblygiad polisi a deddfwriaeth trethi yng Nghymru. Mae'n cwrdd o leiaf ddwywaith y flwyddyn.

*Cylch gorchwyl*

- Trafod, llywio a rhoi adborth ar ddull Llywodraeth Cymru o ymwneud â datganoli trethi yng Nghymru;
- rhoi cyngor a chefnogaeth ar gyfathrebu ynghylch datblygu polisi a gweinyddu treti yng Nghymru;
- rhoi cyngor ar effaith ehangach polisi treth Cymru ar fudd-ddeiliaid yng Nghymru; a

- gweithio gyda Llywodraeth Cymru i alluogi cyfathrebu ar draws rhwydweithiau sefydledig allweddol ynghylch polisi a gweinyddu trethi.

*Aelodau*

Daw'r aelodaeth o blith y proffesiynau a'r cyrff hynny y bydd newidiadau mewn gweinyddu trethi yn cael effaith uniongyrchol arnynt. Mae'r rhai sy'n bresennol yn amrywio o un cyfarfod i'r llall, ac yn cynnwys cynrychiolwyr busnes, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Ymhlith y rhai sydd wedi mynychu cyfarfodydd hyd yn hyn mae cynrychiolwyr y cyrff canlynol:

- Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig
- Cymdeithas y Technegwyr Trethiant
- Ysgol y Gyfraith, Bangor
- Cyngor Caerdydd
- Ysgol y Gyfraith, Caerdydd
- Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth
- Sefydliad Siartredig Trethiant
- Cyngor Conwy
- Cymdeithas y Tirfeddianwyr
- Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad Cyfyngedig
- Cyngor Gwynedd
- Ffederasiwn Busnesau Bach
- Cyllid a Thollau EM
- Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr
- Y Gofrestrfa Dir
- Cymdeithas y Gyfraith Cymru a Lloegr
- Y Swyddfa Symleiddio Treth
- Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig Cymru
- Asiantaeth y Swyddfa Brisio
- Swyddfa Archwilio Cymru
- Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru
- Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Cymru
- Coed Cadw
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Bu'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth hefyd yn bresennol mewn ystod eang o gyfarfodydd, seminarau a digwyddiadau eraill ledled Cymru, gan godi ymwybyddiaeth o'r pwerau cyllidol newydd ac annog pobl i gymryd rhan yn y broses datblygu polisi. Ymhlith y rhain mae digwyddiadau a drefnwyd gan CBI Cymru, Sefydliad y Cyfarwyddwyr, Sefydliad Siartredig Trethiant, Cymdeithas y Gyfraith, Ffederasiwn Busnesau Bach a Phrifysgol Bangor.

---

## Atodiad 2

### Acronymau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn

| | |
|---|---|
| ACC | Awdurdod Cyllid Cymru |
| CNC | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| CThEM | Cyllid a Thollau ei Mawrhydi |

**Atodiad 3**

**Gwybodaeth bellach**

Mae ystod o wybodaeth bellach am ddatganoli trethi i Gymru ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru a gwefannau eraill.

**Cynnydd o ran datganoli trethi i Gymru**

Mae cyfres Papurau'r Trysorlys - cyhoeddwyd tri hyd yma - yn rhoi gwybodaeth fanylach am y cynnydd o ran datblygu trethi datganoledig, gan gynnwys ffeithiau a ffigurau allweddol am y trethi sy'n cael eu datganoli i Gymru a threthi eraill sydd wedi'u crybwyll fel ymgeiswyr posibl i'w datganoli yn y dyfodol:
http://gov.wales/funding/financereform/treasury-papers/?skip=1&lang=cy

**Deddfwriaeth a Phapurau Gorchymyn y DU**

Deddf Cymru 2014 a Phapur Gorchymyn Deddf Cymru 2014

Deddfwriaeth y DU wnaeth baratoi'r ffordd ar gyfer datganoli pwerau trethu a benthyca i Gymru:
http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2014/29/contents/enacted

Cafodd rhai agweddau ar y trefniadau ar gyfer datganoli pwerau trethu a benthyca (megis dyddiadau targed, mynediad cynnar i fenthyca a'r dull o fynd ati i greu trethi datganoledig newydd) eu hamlinellu ym Mhapur Gorchymyn Llywodraeth y DU 'Wales Bill: Financial Empowerment and Accountability' a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2014:
https://www.gov.uk/government/publications/wales-bill

Papur Gorchymyn Dydd Gŵyl Dewi

Cyhoeddwyd 'Powers for a purpose: towards a lasting devolution settlement for Wales' ym mis Chwefror 2015 ac roedd yn ymrwymo Llywodraeth y DU, ymhlith pethau eraill, i gyflwyno "a floor in the level of relative funding it provides to the Welsh Government" ac i "consider the case and options for devolving further powers to the Assembly over APD":
https://www.gov.uk/government/publications/powers-for-a-purpose-towards-a-lasting-devolution-settlement-for-wales

**Deddfwriaeth Gymreig**

Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru)

Diben y Bil Cymreig hwn yw sefydlu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer casglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru, gan gynnwys sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru (ACC):
http://gov.wales/legislation/programme/assemblybills/tax-collection-and-management/?skip=1&lang=cy

Treth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi

Disgwylir y bydd Biliau Cynulliad eraill ar y ddwy dreth ddatganoledig (i gymryd lle Treth Dir y Dreth Stamp a'r Dreth Dirlenwi) yn cael eu cyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol yn

2016. Mae ymgynghoriadau cyhoeddus i helpu i lywio datblygiad y trethi wedi'u cwblhau a chrynodebau o'r ymatebion wedi'u cyhoeddi:

Ymgynghoriad ar y Dreth Trafodiadau Tir:
http://gov.wales/consultations/finance/land-transaction-tax/?skip=1&lang=cy

Ymgynghoriad ar y Dreth Gwarediadau Tirlenwi:
http://gov.wales/consultations/finance/landfill-disposals-tax/?skip=1&lang=cy

**Ymgysylltu**

Grŵp Cynghori ar Drethi

Dan gadeiryddiaeth y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, mae'r Grŵp Cynghori ar Drethi yn rhoi cyngor strategol i Lywodraeth Cymru ar bolisi a gweinyddu trethi:
http://gov.wales/funding/financereform/tax-advisory-group/?skip=1&lang=cy

Fforwm Trethi

Mae'r Fforwm Trethi yn trafod, yn llywio ac yn rhoi adborth ar ddull Llywodraeth Cymru o ymdrin â datganoli trethi:
http://gov.wales/funding/financereform/tax-forum/?skip=1&lang=cy

**Cefndir**

Comisiwn Annibynnol ar Ariannu a Chyllid i Gymru ('Comisiwn Holtham')

Y ddau adroddiad (2009 a 2010) a deunydd arall a gyhoeddwyd gan y comisiwn a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i ystyried y mecanwaith ariannu ar gyfer Cymru a sut y gellid ei wella, gan gynnwys y ddadl dros ddatganoli pwerau trethu a benthyca:
http://gov.wales/funding/financereform/reports/?skip=1&lang=cy

Datganiad ar y cyd ar ddiwygio ariannu

Cytuno ar y camau nesaf ar drafodaethau am ddiwygio ariannu, gan gynnwys cydnabyddiaeth gan Lywodraeth y DU y cafwyd cydgyfeirio yn ariannu cymharol Cymru ers datganoli:
https://www.gov.uk/government/publications/joint-statement-on-funding-reform

Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru ('Comisiwn Silk')

Comisiwn Llywodraeth y DU a fu'n ystyried y trefniadau ariannol a chyfansoddiadol ar gyfer Cymru. Roedd ei adroddiad cyntaf (2012) yn edrych ar y ddadl dros ddatganoli pwerau trethu a benthyca, a newidiadau sefydliadol cysylltiedig:
http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20140605075122/http://commissionondevolutioninwales.independent.gov.uk/cy/